# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 8 Chwefror 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(45)v3

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (45 munud)

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn dilyn argymhellion yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2004 ar Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, na chymerwyd unrhyw gamau gan Lywodraeth Cymru i atal cyllideb y corff hyd nes i welliannau sylweddol gael eu gwneud i reoli perfformiad.

### 3. Cynnig i benodi archwilwyr ar gyfer cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru (15 munud)

**NDM4910 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 14(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn penodi RSM Tenon yn archwilwyr cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol 2011-2012; 2012-2013; a 2013-2014.

### 4. Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Menter (Mohammad Ashgar) (60 munud)

**NNDM4878 Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Mohammad Asghar gyflwyno Bil er mwyn gweithredu'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ar 14 Hydref 2011 o dan Reol Sefydlog 26.90.

Gellir gweld y wybodaeth cyn y balot drwy ddilyn y linc canlynol:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bill_ballots/bill_027.htm

**5. Dadl ar ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Leihau'r Risg o Strôc (60 munud)**

**NDM4911 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei Ymchwiliad i Leihau'r Risg o Strôc a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 2011.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2012.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM4912 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i gyhoeddi cynlluniau cyflawni wedi'u costio'n briodol ar gyfer polisïau iechyd allweddol, fel archwiliadau iechyd blynyddol ar gyfer pobl dros 50 oed a darparu gwasanaethau gofal sylfaenol ar benwythnosau a gyda'r nos.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu "Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i gyhoeddi cynlluniau cyflawni wedi'u costio'n briodol ar gyfer" a rhoi yn ei le "Yn cydnabod y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu".

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ar ôl 'pobl dros 50 oed' rhoi ', cynyddu nifer yr ymwelwyr iechyd'.

**Gwelliant 3 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r diffyg cynllunio manwl yng nghyswllt cyflawni polisïau iechyd allweddol.

**Gwelliant 4 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cynlluniau manwl am gwmpas, cost, cyflawni a chanlyniadau disgwyliedig polisïau iechyd allweddol.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4909 Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Cŵn Peryglus

Trafodaeth am ddulliau o wella lles cŵn a chael mwy o reolaeth drostynt.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mawrth, 21 Chwefror 2012